

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN
ETHOLIAD CYNGOR SIR

RHYBUDD ETHOLIAD

Ar gyfer y Wardiau Etholiadol a restrir isod:-

WARD ETHOLIADOL	Nifer o Gynghorwyr i'w hethol	WARD ETHOLIADOL	Nifer o Gynghorwyr i'w hethol
ABERGWILI	1	LLANYMDDYFRI	1
RHYDAMAN	2	LLANDYBĪE	2
Y BETWS	1	LLANEGWAD	1
BIGYN	3	LLANFIHANGEL ABERBYTHYCH	1
PORTH TYWYN	2	LLANFIHANGEL-AR-ARTH	1
BYNEA	2	LLANGADOG	1
GOGLEDD A DE TREF CAERFYRDDIN	3	LLANGENNECH	2
GORLLEWIN TREF CAERFYRDDIN	2	LLANGYNNWR	1
CENARTH A LLANGELER	2	LLANGYNDEYRN	2
CIL-Y-CWM	1	LLAN-NON	2
CWARTER BACH	1	LLANYBYDDER	1
CYNWYL ELFED	1	LLIEDI	2
DAFEN A FELIN-FOEL	2	LLWYNHENDY	2
ELLI	1	MANORDEILO A SALEM	1
Y GARNANT	1	PEN-BRE	2
GLANAMAN	1	PEN-Y-GROES	1
GLAN-Y-MÔR	2	PONTYBEREM	1
GLYN	1	SARON	2
GORS-LAS	2	SANCLĒR A LLANSTEFFAN	2
HENDY	1	SWISS VALLEY	1
HENGOED	2	TRE-LECH	1
CYDWELI A LLANISMEL	2	TRIMSARAN	1
LACHARN	1	TŶ-CROES	1
LLANBOIDY	1	TYISHA	2
LLANDDAROG	1	HENDY-GWYN	1
LLANDEILO	1		

1. PAPURAU ENWEBU

Gellir lawrlwytho Papurau Enwebu drwy fynd i: www.comisiwnetholiadol.org.uk; neu fel arall, gallwch gysylltu â'r Swyddfa Etholiadau drwy ffonio 01267 228889, drwy e-bostio GwasanaethauEtholiadol@sirgar.gov.uk neu eu cael o swyddfeydd y Swyddog Canlyniadau, Bloc 4, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin, SA31 1HQ, o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc), a fydd ar gais unrhyw etholwr yn paratoi papur enwebu i'w lofnodi.

2. CYFLWYNO PAPURAU ENWEBU

Cynghorir bod Papurau Enwebu yn cael eu **cyflwyno â llaw** i'r Swyddog Canlyniadau yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn (ac eithrio gwyliau banc) ond heb fod yn hwyrach na **4pm ddydd Mawrth, 5 Ebrill 2022**. Fel arall, gall ymgeiswyr gyflwyno eu papurau enwebu yn y lleoliadau canlynol ar y dyddiadau a nodwyd rhwng 10am a 4pm.

Neuadd y Dref Llanelli, Sgwâr Neuadd y Dref, Llanelli, SA15 3AH - Dydd Mercher, 23 Mawrth

Neuadd y Dref Rhydaman, 5 Heol Iscennen, Rhydaman, SA18 3BD – Dydd Mawrth, 29 Mawrth

Gellir cyflwyno enwebiadau'n electronig drwy sganio'r papurau enwebu a'u hanfon ar e-bost at: Enwebiadau22@sirgar.gov.uk. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu derbyn yn ddiogel, rydym yn argymhell eu cyflwyno â llaw.

Cyfrifoldeb ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y terfynau amser gofynnol.

Nid yw derbynneb electronig o brawf bod cais wedi ei ddarllen gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i hysbysu ymgeiswyr o'u penderfyniad ynghylch a yw eu henwebiad yn ddilys ai peidio.

3. Y BLEIDLAIS

Os bydd pleidleisio yn yr etholiad, cynhelir y bleidlais ar **DDYDD IAU, 5 MAI 2022**.

4. PLEIDLEISIAU ABSENNOL

Dylai etholwyr a'u dirprwyon nodi y bydd gofyn i geisiadau am gael pleidleisio trwy'r post neu drwy ddirprwy gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Adeilad 4, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin erbyn **5pm ar DDYDD MAWRTH, 19 EBRILL 2022** os ydynt i fod yn effeithiol ar gyfer yr etholiad hwn. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i'r trefniadau presennol ar gyfer derbyn pleidleisiau drwy'r post gan etholwyr neu eu dirprwyon sydd eisoes â phleidlais bost am gyfnod amhenodol neu benodol.

Rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol dderbyn ceisiadau am benodi dirprwy erbyn **5pm ar DDYDD MAWRTH, 26 EBRILL 2022** fan hwyraf, ac eithrio mewn perthynas ag achosion o salwch neu analluogrwydd na fu modd eu rhagweld sy'n digwydd ar ôl y dyddiad hwnnw. Yn yr amgylchiadau hynny gellir cyflwyno ceisiadau hyd at **5pm ar DDYDD IAU, 5 MAI 2022**.

Rhaid anfon pob cais a phob hysbysiad ynghylch pleidleisio absennol at y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Adeilad 4, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin SA31 1HQ.

Dyddiedig 18 Mawrth 2022

WENDY WALTERS

SWYDDOG CANLYNIADAU